Cyfrifeg, Economeg a Chyllid

PAPUR ENGHREIFFTIOL

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Cewch ddefnyddio cyfrifiannell safonol nad oes modd ei rhaglennu.

Gan fod fformat a phynciau'r arholiad hwn wedi newid ar gyfer 2027, mae'r papur enghreifftiol hwn wedi'i lunio i roi syniad i chi o'r hyn i'w ddisgwyl ac i'ch helpu i baratoi.

Atebwch **DDAU** gwestiwn yn unig

50 marc yw gwerth pob cwestiwn. Bydd y papur yn cael ei farcio allan o 100.

Darllenwch y cwestiynau'n ofalus. Rhaid i chi ateb **2** gwestiwn o'r **papur cyfan**. **50** marc yw gwerth pob cwestiwn.

Adran A: Cyfrifeg

1. Mae pris cyfranddaliadau cwmni wedi cynyddu'n sylweddol, ond nid oes newid wedi digwydd i'w elw. A yw hyn yn golygu bod y cwmni wedi dod yn fwy llwyddiannus? Ystyriwch y wybodaeth y mae buddsoddwyr, rheolwyr a chyfrifwyr yn ei defnyddio wrth bwyso a mesur perfformiad. (50 marc)

2. A oes modd i gyfrifwyr fesur popeth sy'n cyfrannu at lwyddiant busnes yn fanwl-gywir? Ystyriwch ffactorau fel sgiliau'r gweithwyr, arloesi, enw da, ffyddlondeb y cwsmeriaid, a diwylliant sefydliadol. (50 marc)

3. Roedd busnes wedi disgwyl £200,000 o werthiant yn y flwyddyn ond £180,000 oedd y gwerthiannau gwirioneddol.

    a) Cyfrifwch amrywiant y gwerthiant. (5 marc)

    b) A yw'r amrywiant yn ffafriol neu'n anffafriol? (5 marc)

    c) Beth allai esbonio'r gwahaniaeth rhwng y perfformiad disgwyliedig a'r perfformiad gwirioneddol? (40 marc)

Drosodd

Adran B: Economeg

4. A ddylai llywodraethau gynyddu'r isafswm cyflog bob tro pan fo'r costau byw yn codi? Trafodwch yr effeithiau posib ar weithwyr, busnesau, cwsmeriaid, a diweithdra. (50 marc)

5. Mae rhai economegwyr yn dadlau bod anghydraddoldeb incwm yn annog arloesi a gwaith caled, ond mae eraill yn dadlau ei fod yn creu problemau cymdeithasol ac economaidd. Pa farn sy'n eich argyhoeddi fwyaf? Cyfeiriwch at resymeg a thystiolaeth i ategu'ch ateb.

6. Dros bum mlynedd, mae Cynnyrch Domestig Gros (*GDP*) gwlad yn cynyddu o £1.8 triliwn i £2.1 triliwn.

    a) Cyfrifwch dwf canrannol y Cynnyrch Domestig Gros. (10 marc)

    b) A yw twf economaidd o reidrwydd yn golygu bod bywydau pobl wedi gwella? (40 marc)

Drosodd

Adran C: Cyllid

7. "Yn aml mae cymryd dyled yn cael ei weld fel risg, ond mae llawer o fusnesau llwyddiannus yn dibynnu ar fenthyca." Pryd y gall dyled helpu sefydliad i lwyddo, a phryd y gall fynd yn broblem? Trafodwch. (50 marc)

8. Pe baech chi'n derbyn £10,000 heddiw, a fyddai'n well ei wario, ei gynilo, neu ei fuddsoddi? Esboniwch eich penderfyniad a thrafodwch y ffactorau a fyddai'n dylanwadu ar eich dewis. (50 marc)

9. Rydych chi'n buddsoddi £5,000 mewn cyfrif sy'n talu adlog ar 5% y flwyddyn.

    a) Cyfrifwch werth y buddsoddiad ar ôl un flwyddyn. (10 marc)

    b) Esboniwch pam mae adlog yn aml yn cael ei ddisgrifio fel un o'r cysyniadau mwyaf pwerus mewn cyllid. (40 marc)

Diwedd y Papur